# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 3

ETHOLIADAU

*Cofrestru etholiadol*

### 25 Eithriadau i'r gwaharddiad ar ddatgelu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddiben adran 24(1).

(2) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i unrhyw berson i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddiben cyflawni swyddogaethau'r person hwnnw mewn cysylltiad ag—

- (a) cofrestru etholwyr, neu
- (b) cynnal etholiad.

(3) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc yn unol â rheoliad 32ZA(5) a (5A) o Reoliadau 2001 (rhagboblogi'r ffurflen ganfasio).

(4) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc (oni bai am unrhyw wybodaeth y gellid canfod dyddiad geni'r person oddi wrthi) mewn fersiwn neu gopi o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol neu gofnod neu restr o bleidleiswyr absennol a gyflenwir yn unol â deddfiad cyflenwi perthnasol, ond dim ond i'r graddau y bo gwneud hynny'n angenrheidiol at ddibenion etholiad lle y bydd gan y person ifanc hawl i bleidleisio neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath.

(5) Yn is-adran (4), ystyr "deddfiad cyflenwi perthnasol" yw—

- (a) rheoliad 100 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i'r Comisiwn Etholiadol);
- (b) rheoliad 104 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i ddeiliaid swyddi etholiadol perthnasol ac ymgeiswyr), i'r graddau y mae'n gymwys i Aelod o'r Senedd;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) rheoliad 108 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i ymgeiswyr), i'r graddau y mae'n gymwys i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd;

(d) rheoliad 102 o Reoliadau 2001 (darpariaeth gyffredinol), i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliadau 104 a 108;

(e) unrhyw ddeddfiad sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn rheoliad 61 o Reoliadau 2001 (cofnodion a rhestrau pleidleiswyr absennol) mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd;

(f) unrhyw ddeddfiad sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn rheoliad 98(4) o Reoliadau 2001 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd.

(6) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i unrhyw berson i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol sy'n ymwneud â throsedd (neu drosedd honedig) o dan unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag—

(a) cofrestru etholwyr, neu

(b) cynnal etholiadau.

(7) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i'r person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.

(8) Rhaid i swyddog cofrestru gyflenwi gwybodaeth person ifanc i'r person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef os bydd y person ifanc yn gofyn am yr wybodaeth at ddiben gwirio bod y person ifanc yn rhoddwr a ganiateir o fewn ystyr ("permissible donor") yn adran 54(2)(a) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41).

(9) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i berson a benodwyd yn ddirprwy i bleidleisio ar ran y person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.

(10) Ni chaiff person y datgelwyd gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) ddatgelu'r wybodaeth i berson arall, ac eithrio fel y crybwyllir yn yr is-adran honno.

(11) Mae person sy'n torri is-adran (10) yn cyflawni trosedd ac mae'n agored i ddirwy ar euogfarn ddiannod.